Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Caban Cegin

**Ysgol Caban Cegin**

**Maesgeirchen**

**Bangor**

**Gwynedd**

**LL57 1ST**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2011**

**gan**

**Eifion R Morgan**
**Arolygydd Cofnodol**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Y Lleoliad

Lleolir Cylch Meithrin Caban Cegin wrth ymyl Ysgol Gynradd Glancegin, ar faes sy`n edrych dros stad dai fawr Maesgeirchen ar gyrion dwyreiniol Bangor (Gogledd Cymru). Daw`r plant sy`n mynychu`r feithrinfa o`r gymuned agos sy`n cael ei disgrifio fel cymdeithas sy`n ddifreintiedig yn economaidd gymdeithasol ac yn ardal gymuned yn gyntaf.

Mae`r feithrinfa yn cyfarfod mewn caban symudol mawr sy`n cael ei gynnal a`i gadw`n dda ac sy`n darparu`r holl gyfleusterau angenrheidiol ar gyfer y plant. Mae`r adeilad yn cael ei chynnal a`i chadw`n dda, mae`n fawr ac mewn cyflwr da. Mae ardal chwarae ddiogel tu allan sy`n cynnwys llawr caled ac ardal fach o laswellt.

Mae`r prif ystafell yn fawr gydag ardaloedd o weithgareddau sydd wedi`u gwahaniaethu`n dda i fodloni anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Tu fewn i`r prif fynedfa mae cyntedd bach yn arddangos gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer rhieni. Mae cegin yno sydd â chyfleusterau da a lle caiff byrbrydau eu paratoi, toiledau glân sydd wedi`u cynllunio`n dda ac ystordy. Mae swyddfa fechan a ddefnyddir gan yr arweinydd yn darparu preifatrwydd yn ôl yr angen. Ceir mynedfa i`r feithrinfa drwy`r ardal chwarae tu allan a nodwedd arbennig a da yw`r pwyslais a roddir ar ddiogelwch. Mae`r giât allanol a`r drws yn y fynedfa yn cael eu cadw dan glo, a cheir giât yn y brif ystafell, y gegin a`r swyddfa sy`n golygu nad yw`r plant yn gallu dod i mewn ar eu pen eu hunain. Rhaid cael goruchwyliaeth oedolyn er mwyn cael mynediad i`r ardal chwarae tu allan. Tu allan, ceir llawr caled sy`n galluogi`r plant i chwarae`n rhydd ar deganau symudol.

Daw`r plant i`r feithrinfa yn y tymor sy`n dilyn eu penblwydd yn ddwy oed a chânt eu cefnogi gan fenter Dechrau`n Deg. Maen nhw`n symud i gyfnod addysg gynradd yn y tymor sy`n dilyn eu penblwydd yn dair oed.

Mae`r feithrinfa ar agor rhwng 9 a 11.30 y.b. a rhwng 12.30 a 3.00 y.p. am bum diwrnod yr wythnos yn ystod y tymor ysgol. Mae ar agor wythnos ychwannegol dros gwyliau'r Pasg, ac ar agor pythefnos cyntaf o'r gwyliau Haf. Daw`r plant o gartrefi Saesneg eu hiaith – does neb yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Mewn rhai achosion, cyfyngedig yw iaith Saesneg y plant hyd yn oed.

Does dim un plentyn yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol, er bod rhai wedi mynychu yn y gorffennol ac mae`r feithrinfa yn barod i dderbyn plant pa beth bynnag bo`u cefndir neu allu. Ar hyn o bryd, mae 8 o blant wedi`u nodi ag anghenion ychwanegol. Mae cyfanswm o 40 o blant ar y gofrestr. Mae 6 ohonynt yn 3 oed gyda nifer yn cyrraedd 3 oed yn ystod y tymor cyfredol.

Sefydlwyd y feithrinfa 3 mlynedd yn ôl i ddarparu ar gyfer anghenion y gymuned leol ac ers hyn mae ei phoblogrywdd wedi cynyddu yn flynyddol ac mae`r rhieni yn ei hystyried fel darpariaeth dda iawn – adlewyrchir hyn gan y nifer cynyddol o blant sy`n mynychu.

Arolygwyd y feithrinfa yn ddiweddar gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau

Cymdeithasol Cymru (2010) ac mae`r feithrinfa wedi mynd i`r afael â`r argymhellion mân.  Nid yw wedi`i harolygu gan Estyn o`r blaen.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y Feithrinfa** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r Feithrinfa** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Agweddau Rhagorol:

- cydlyniad ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad personol a`r cymorth arbenigol a ddarperir.
- y trefniadau ar gyfer diogelu plant.

Agweddau Da:

- cyflawniad a chynnydd y plant yn eu dysgu yn enwedig yn yr iaith Gymraeg.
- ymrwymiad a mwynhad y plant wrth dysgu.
- y profiadau dysgu a ddarperir ar gyfer y plant.
- ystod ac ansawdd yr addysgu sy`n canolbwyntio`n dda ar anghenion y plant.
- y ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles y plant.
- ethos y feithrinfa a`r cyfleoedd cyfartal ar gyfer yr holl blant.
- ansawdd yr arweinyddiaeth a phroffesiynoldeb y staff.
- y berthynas waith agos ac effeithiol sy`n amlwg.
- y cysylltiadau agos gyda`r ysgol gynradd a`r cymorth a`r cyngor a ddarperir gan y pennaeth a`r staff.

### Rhagolygon gwella

Agweddau Da:

- mae`r gweithdrefnau hunan-arfarnu yn fanwl ac yn effeithiol ac yn nodi`r cryfderau a`r meysydd i`w datblygu yn glir.
- mae`r arweinydd yn darparu`r feithrinfa ag amcanion a nodau clir ac mae`r cynllunio`n canolbwyntio`n dda ar fodloni anghenion y plant.
- mae`r staff yn cyd-weithio`n dda iawn ac mae`r hyfforddiant a`r datblygiad

proffesiynol wedi cael effaith dda ar safonau cyfredol y ddarpariaeth.

- mae`r  pwyllgor rheoli yn cefnogi gwaith y feithrinfa ac yn rhoi synnwyr o gyfeiriad i waith y feithrinfa.
- mae gweithio gyda phartneriaid wedi bod yn effeithiol ac mae`r feithrinfa yn gweithio`n dda gyda gwasanaethau lleol a`r ysgol gynradd.
- mae yna deimlad cyffredinol bod y feithrinfa eisiau darparu`r profiadau a`r cymorth gorau posibl i`r holl blant.

## Argymhellion

Mae angen i`r feithrinfa:

A1  barhau i ganolbwyntio ar ddatblygu medrau llythrennedd y plant yn yr iaith Gymraeg;

A2  datblygu`r ardal chwarae tu allan;

A3  cynnwys y targedau ar gyfer gwella a nodir yn y ddogfen hunanarfarnu mewn cynllun datblygu manwl.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y feithrinfa yn llunio cynllun gweithredu sy`n dangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1:    Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae`r holl blant yn cyflawni safonau da gan wneud cynnydd realistig o`u man cychwyn.  Mae`r plant yn elwa o`r cychwyn cyntaf  o fenter "Dechrau`n Deg", ond mae eu medrau llythrennedd a chyfathrebu yn gyfyngedig ac mewn rhai achosion yn gyfyngedig iawn.  Ar y dechrau, does gan y plant bron dim gwybodaeth a dealltwriaeth o`r iaith Gymraeg ond o`r man cychwyn hyn maen nhw`n gwneud cynnydd da iawn.

Mae`r plant hŷn, sydd wedi mynychu`r feithrinfa yn y flwyddyn flaenorol, yn dangos dealltwriaeth dda o eiriau a chyfarwyddiadau sylfaenol yn y Gymraeg.  Mae`r plant yn y feithrinfa yn deall mwy o eiriau nag y gallant siarad ac mae hyn yn amlwg yn eu hymatebion i ganeuon actol pan mae llawer yn ymateb yn gadarnhaol i symudiadau gyda`r rhan fwyaf yn dilyn y caneuon a`r rhigymau.

Mae`r holl blant yn gweithio`n dda ac yn dangos diddordeb yn y gweithgareddau a gosodir iddynt.  Maen nhw`n dangos ymdrech canmoladwy, yn canolbwyntio`n dda ac yn dyfalbarhau ar dasgau.  Maen nhw`n medru gwneud dewisiadau syml ac ar y cyfan maen nhw`n cyflawni`n dda.

Mae medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh y plant yn ystod y cyfnod hwn yn eu datblygiad yn gyfyngedig. Fodd bynnag, maen nhw`n gallu mynegi eu teimladau ac

yn awyddus bob amser i gymryd rhan mewn caneuon actol gan fwynhau cerddoriaeth.

Mae`r plant yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarwydddiadau a threfn eu dydd, fel clirio i ffwrdd a thacluso`r ystafell.  Mae`r holl blant yn hoffi gwrando ar storïau wedi`u hanimeiddio, gan wrando`n dda, ac mae`r plant fwy galluog yn cofio rhai digwyddiadau mewn stori.  Mae`r plant mwy galluog yn arbrofi gyda chreu marciau ar bapur a byrddau sialc.  Maen nhw`n deall swyddogaethau ysgrifennu.

Mae`r holl blant yn datblygu dealltwriaeth rhif a gall rhai rhifo gydag oedolyn, fel rhifo`r nifer o blant sy`n bresennol wrth gofrestru yn y bore.  Mae rhai o`r plant yn dechrau adnabod siapiau.

Mae`r plant yn gwrando ar ganeuon ar beiriant CD ac yn cael cyfleoedd i ddefnyddio cyfrifiadur, tegan raglenadwy a bwrdd gwyn rhyngweithiol yn hwyrach yn y flwyddyn.

Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn dangos eu bod yn deall rhai cyfarwyddiadau sylfaenol yn y Gymraeg, gan ddeall mwy o eiriau nag y gallant eu dweud.  Mae`r holl blant yn ymuno mewn caneuon actol a rhigymau yn y Gymraeg ac mae llawer yn gwybod y geiriau.  Mae llawer o blant yn dilyn storïau ac mae rhai yn dechrau gwneud marciau ar bapur a byrddau sialc.

Drwyddi draw, gan ystyried eu mannau cychwyn, mae`r holl blant yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni`n dda.

**Lles: Da**

Mae`r holl blant yn dangos eu bod yn teimlo`n ddiogel yn y feithrinfa, yn y modd maent yn hyderus i symud o un weithgaredd i un arall ac i arbrofi`r amgylchedd tu allan pan gânt y cyfle.  Mae`r holl blant yn rhydd oddi wrth gam-drin corfforol a geiriol yn y lleoliad.  Mae`r plant yn dechrau deall bod rhai bwydydd yn “fwydydd iach” drwy`r dewis maent yn cael eu cynnig fel byrbrydau ac mae`r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol iach.

Drwy eu cyfranogi a`i dyfalbarhad, mae`r plant yn dangos eu bod yn mwynhau dysgu.  Mae`r holl blant yn ymddwyn yn dda, mae ganddynt agweddau da ac yn ymateb yn dda i`w gilydd ac i oedolion.  Maen nhw`n ystyrlon wrth ddelio â`i gilydd ac yn gwerthfawrogi`r cymorth gan oedolion.

Mae cysylltiadau da â`r gymuned yn bodoli. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau â`r gymuned gan gynnwys y Swyddfa Bost a`r archfarchnad a rhandir lle mae preswylydd lleol yn siarad â nhw am ei berlysiau a`i lysiau.  Mae ymwelwyr i`r feithrinfa yn cynnwys glanweithydd deintyddol a nyrs lleol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae`r cynllunio`n fanwl ac yn cyfateb yn dda ag anghenion a chyflawniad blaenorol y plant. Mae`r cynllunio yn rhoi ystyriaeth dda i ddiddordebau`r plant a gwaith blaenorol ac mae`r cynllunio`n ddigon hyblyg i ymateb i ddiddorbebau a phrofiadau`r plant a digwyddiadau cyffredin dyddiol. Mae`r cynllunio yn cael ei wneud ar y cyd, ac mae`r staff yn nodi gwaith yr wythnos flaenorol fel bod gwaith yr wythnos newydd yn adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau`r wythnos flaenorol ac yn cynnwys agwddau fel y medrau sydd angen eu pwysleisio.

Mae`r profiadau dysgu`n canolbwyntio`n dda ar sicrhau bod y plant yn datblygu tuag at gwrdd â deilliannau`r Cyfnod Sylfaen ac yn adeiladu`n systematig ar wybodaeth, medrau a dealltwriaeth y plant.

Nodwedd da a nodedig o`r feithrinfa yw`r berthynas dda iawn sydd rhwng staff a phlant. Mae`r plant yn dangos parch a goddefgarwch ac yn ennill hyder ac annibyniaeth. Dyma adlewyrchiad o agweddau gofalgar y staff a`u dyheuadau am yr holl blant.

Mae`r holl blant yn dechrau caffael medrau sylfaenol a fydd yn eu galluogi i gael mynediad at gwricwlwm eang. Mae oedolion yn defnyddio cwestiynu yn dda i ddatblygu medrau meddwl y plant a chânt eu trochi`n llawn yn yr iaith Gymraeg yn ystod eu hamser yn y feithrinfa. Mae hyn yn datblygu eu hiaith yn effeithiol iawn.

Rhoddir amlygrwydd i draddodiadau a dathliadau Cymru a hefyd diwylliannau a thraddodiadau eraill pan mae unrhyw blentyn o gefndir ethnig lleiafrifiol ar y gofrestr. Yn ddiweddar, mae hyn wedi cynnwys arferion o India a Tsieina.

Mae syniadau`r plant o ail-gylchu yn cael eu datblygu drwy wahanu a chasglu bwyd gwastraff a gwastraff papur.

**Addysgu: Da**

Mae`r holl staff yn gyfarwydd â gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ddatblygiad y plentyn ac yn sensitif i angehnion unigol plant. Caiff y plant eu parchu fel unigolion ac mae gan y staff wybodaeth drwyadl o`u cefndir a`u gofynion. Mae`r plant sy`n cael eu nodi ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael eu cefnogi`n dda ac mae`r feithrinfa yn cynnig darpariaeth dda i`r plant sy`n cael eu nodi`n fwy abl a thalentog. Mae`r feithrinfa yn defnyddio staff ychwanegol i gefnogi`r plant sy`n cael eu nodi ag ADY.

Mae`r tasgau yn heriol ac mae anghenion unigol y plant yn cael eu bodloni mewn ffordd hyblyg. Mae cyd-bwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u cyfeirio gan ymarferwyr. Mae cwestiynu yn cael ei ddefnyddio`n effeithiol

i ddatblygu medrau meddwl y plant.  Mae`r staff yn cael eu briffion`n llawn ac yn chwarae rhan weithredol yn yr holl weithgareddau.

Nodwedd nodedig a gwerthfawr o`r feithrinfa yw ei bod yn dibynnu`n llwyr ar yr iaith Gymraeg fel cyfrwng y cyfathrebu.  Yn y ffordd hon, mae`r plant yn cael eu trochi`n llwyr yn yr iaith.  Mae`r ffaith bod yr holl staff yn rhugl yn yr iaith yn hwyluso hyn ac maent yn fodelau iaith dda.

Mae`r feithrinfa yn dangos ethos cynnes, tawel a chefnogol – yn anaml bydd rhaid i`r staff ymyrryd. Caiff y gweithgareddau eu cyfatebu`n dda i anghenion y plant sy`n sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn llawn.

Mae`r staff yn adnabod eu plant yn dda a defnyddir eu hasesiadau o blant wrth gynllunio gweithgareddau newydd.  Mae`r cofnodion yn dangos beth mae`r plant wedi`i gyflawni a`r camau nesaf yn eu dysgu.  Mewn trafodaethau, adroddodd rhieni eu bod yn ymwybodol iawn o gynnydd a chyflawniad ei plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Rhagorol**

Mae darpariaeth y feithrinfa ar gyfer datblygu iechyd a lles y plant gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.

Mae gweithgareddau`r feithrinfa a`r ethos cyffredinol yn meithrin gwerthoedd fel tegwch, gonestrwydd  a pharch at eu gilydd.  Mae`r plant yn gwahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir ac anghywir yn gyflym, ac mae gweithgareddau fel casglu dail yr hydref yn datblygu eu synnwyr o syndod a rhyfeddod am y byd o`u cwmpas. Sefydlwyd rheolau ymddygiad yn dda ac mae`r plant yn dysgu rhannu a chymryd eu tro.

Gwna`r feithrinfa ddefnydd rhagorol o wasanaethau cefnogi proffesiynol.  Yn y gymuned hon, gwneir defnydd da iawn o ystod eang o staff proffesiynol i gefnogi`r plant a`u teuluoedd.  Mae hyn yn cynnwys ymwelwyr iechyd, staff cefnogi iaith, gweithwyr cymdeithasol, Nyrsys Meithrinfa cymunedol, seicolegydd addysg, yn ogystal â menter Dechrau`n Deg.  Mae`r holl asiantaethau yn cyd-weithio gyda`r feithrinfa i gefnogi plant unigol yn y feithrinfa ac yn y cartref.  Mae cyfarfodydd aml-broffesiynol yn sicrhau bod yr holl sefydliadau proffesiynol yn cydweithio er lles y plentyn.  Mae`r cysylltiadau da iawn â`r ysgol gynradd yn sicrhau hefyd bod cefnogaeth yno i`r plentyn wrth iddo/iddi symud i`r cyfnod nesaf ym myd addysg.

Drwyddi draw, mae`r plant yn elwa`n fawr iawn o `r gefnogaeth gydlynol sy`n cwmpasu pawb a ddarperir ar eu cyfer yn y feithrinfa ac oddi wrth y gwasanaethau cymdeithasol.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu plantsy`n adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.  Yr arweinydd yw`r aelod staff  enwebedig gyda chyfrifoldebau ar gyfer amddiffyn plant ond mae`r holl

staff yn ymwybodol iawn o`r gweithdrefnau oherwydd hyfforddiant diweddar. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn wyliadwrus iawn bob tro ynglyn ag unrhyw newidiadau mewn agwedd neu ymddygiad neu unrhyw arwyddion o gam drin plant.

Yn ogystal, mae`r arweinydd yn gweithio`n agos â phennaeth yr ysgol gynradd - y pennaeth yw`r Person Cofrestredig yn ogystal. Sicrha hyn gysondeb yn niogelwch y plant.

Mae gan y feithrinfa drefniadau effeithiol ar waith o ran recriwtio, disgyblu ac adrodd i sicrhau addasrwydd staff. Mae`r trefniadau yn bodloni gofynion cyfreithiol yn llawn.

Mae gan y feithrinfa weithdrefnau effeithiol ar gyfer nodi, cefnogi a monitro plant sy`n cael eu amau neu/a`u nodi ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae`r plant hyn yn manteisio`n llawn ar bob maes dysgu ac mae eu cynnydd yn cael ei adolygu`n rheolaidd. Mae`r rhieni yn cymryd rhan weithredol ac yn cael eu cysylltu`n rheolaidd. Roedd trafodaeth â rhai o`r rhieni yn cadarnhau eu boddhad â`r gweithdrefnau sydd ar waith. Defnyddir asiantaethau allanol yn dda ac mae`r plant yn cael eu darparu â chefnogaeth ychwanegol o ansawdd yn ôl yr angen. Drwyddi draw, mae`r plant yn cyflawni safoni da sy`n gymesur â`u gallu.

Nodwedd da a nodedig yw nodi plant mwy abl a thalentog sy`n cael eu darparu â`u targedau eu hun. Caiff eu cynnydd eu monitro`n rheolaidd ac mae`r targedau a osodir ar eu cyfer yn briodol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae`r feithrinfa yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i holl feysydd darpariaeth y feithrinfa. Mae gan y feithrinfa ddigon o ymarferwyr, gan gynnwys staff cefnogi ar gyfer y plant ag anghenion ychwanegol. Yn dilyn hyfforddiant, mae gan y staff gymwysterau da ac yn ddigon profiadol i ddysgu pob agwedd o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae`r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn eu darparu â phrofiadau ysgogol sy`n cyfateb yn dda â`u diddordebau.

Mae`r plant yn elwa o weithio mewn amgylchedd cynnes, cyfforddus sydd â digon o adnoddau. Mae`r adnoddau yn gweddu`n dda i anghenion y plant a gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae`r adeilad o ansawdd da ac yn cael ei defnyddio`n dda. Defnyddir yr amgylchedd lleol yn dda i ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o`u hamgylchedd.

| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae`r feithrinfa yn dangos synnwyr clir o ddiben sy`n canolbwyntio`n glir ar ddarparu`r profiadau gorau posibl ar gyfer y plant a sicrhau eu lles. Mae`r arweinydd yn darparu arwienyddiaeth effeithiol iawn ac mae eu disgwyliadau uchel yn cael eu cyflawni yn ymarferol. Ers sefydlu`r feithrinfa dair mlynedd yn ôl mae`r arweinydd a`r staff wedi cydweithio`n dda iawn i sicrhau gwelliant parhaus a sicrhau bod cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu`n llwyddiannus. Mae deilliannau`r plant yn dda ac yn gwella`n dda iawn dros amser. Caiff y dysgu a`r addysgu eu rheoli`n dda, mae`r staff yn ymwybodol o`u rolau ac yn derbyn eu cyfrifoldebau a thrwyddi draw, mae hyn yn sicrhau meithrinfa lwyddiannus a chefnogol iawn.

Mae`r berthynas â`r plant a`u rhieni a gofalwyr yn dda iawn ac yn cyfrannu`n sylweddol at ymdeimlad o gymuned. Mae`r rhieni yn gefnogol iawn ac yn gwerthfawrogi`r effaith mae`r feithrinfa yn ei chael ar ddatblygiad personol a chymdeithasol eu plant.

Mae arweinydd y feithrinfa wedi sicrhau bod yr holl bolisïau a dogfennau perthnasol ar waith ac ar gael i rieni eu gweld. Mae systemau sy`n hawdd eu rheoli ar waith i gydlynu gweithgareddau`r feithrinfa.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu beirniadol yn amlwg yng ngwaith y feithrinfa. Mae`r staff yn cyd-weithio`n effeithiol ac wedi dangos eu bod yn agored i syniadau newydd ac mae hyn wedi bod yn bwysig wrth sicrhau bod cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen wedi cael ei roi ar waith yn llwyddiannus.

Mae`r ddogfen hunanarfarnu yn fanwl ac yn nodi`r cryfderau a`r meysydd i`w datblygu`n glir. Fodd bynnag, nid yw`r Cynllun Datblygu Meithrinfa sy`n cynnwys y targedau a thargedau ar gyfer y dyfodol agos yn ddigon manwl.

Nodwedd dda a phwysig yn natblygiad y feithrinfa yw agweddau`r holl staff a`u bodlonrwydd i gynnwys syniadau newydd o weithio. Mae`r staff wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant perthnasol ac wedi ymgorffori gwahanol ffyrdd o weithio a herio a datblygu medrau meddwl y plant. Canlyniad hyn yw gwell ddarpariaeth a gwell safonau mewn cyflawniad a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae`r partneriaethau sefydledig yn gwneud cyfraniad pwysig at gyflawniadau da a lles y plant. Mae gan y feithrinfa gysylltiadau cryf ac effeithiol â`r ysgol gynradd.

Mae`r pennaeth wedi darparu`r feithrinfa â`i chefnogaeth a`i chyngor ac mae ei phroffesiynoldeb wedi bod, ac yn dal i fod yn arwyddocaol iawn yn natblygiad y feithrinfa. Mae`r arweinydd hefyd wedi gweithio`n agos â staff y babanod, yn enwedig wrth sefydlu system proffil Asesu Datblygiad Plentyn. Mae hyn wedi cynnwys mynychu cyrsiau hyfforddiant. Mae`r Proffil Asesu Datblygiad Plentyn Cyfnod Sylfaen nawr ar waith ac mi fydd yn cynnwys plant 3 oed y feithrinfa yn y dyfodol.

Mae`r agosrwydd a`r cysylltiadau sefydledig â`r ysgol gynradd yn hwyluso trosglwyddiad y plant a throsglwyddiad gwybodaeth, yn enwedig am blant sydd wedi`u nodi ag anghenion dysgu ychwanegol.

Nodwedd ragorol yw`r cysylltiad â sefydliadau o fewn y gymuned, gan sicrhau`r gefnogaeth orau posibl ar gyfer plant mewn angen.

Ceir hefyd berthynas dda iawn â gweithwyr yr Awdurdod Lleol a Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae`r gefnogaeth hon yn ystod datblygiad y feithrinfa wedi bod yn werthfawr iawn.

Drwyddi draw, mae staff y feithrinfa yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn defnyddio`r wybodaeth yn briodol os oes angen cefnogaeth ychwanegol. Mae “cadwyni awdurdod” sefydledig ar waith.

Hysbysir rhieni yn dda am bob agwedd o waith y feithrinfa ac maen nhw`n cael eu cynnwys yn llawn os awgrymir unrhyw gymorth ychwanegol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff adnoddau eu rheoli a`u defnyddio`n dda i gefnogi`r dysgu. Caiff y feithrinfa ddefnydd unigryw o gaban symudol ac ardal allanol. Dros y tair mlynedd diwethaf mae`r feithrinfa wedi ei dodrefnu`n dda ac mae`r gwariant wedi cael ei flaenoriaethu yn unol â gwelliant a gynlluniwyd. Ar hyn o bryd, mae`r pwyllgor rheoli wedi blaenoriaethu`r angen i ddatblygu`r ardal tu allan er mwyn galluogi`r plant i wneud gwell ddefnydd a defnydd amlach o`r ardal hon.

Drwyddi draw, mae`r adnoddau yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at safonau cyflawniad, cynnydd a lles y plant.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

Cafodd 12 holiadur eu dychwelyd.

Roedd yr holl ymatebion yn nodi bod rhieni a gofalwyr yn cytuno`n gryf bod

“fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad” a

“cafodd fy mhlentyn help i ymgartrefu`n dda pan oedd yn dechrau yn y lleoliad”.

Roedd dros dri chwarter o`r ymatebion yn cytuno`n gryf â`r datganiadau canlynol.

> “Rwy`n fodlon â`r lleoliad at ei gilydd”.
> “Mae fy mhlentyn yn hoffi`r lleoliad hwn”.
> “Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da”.
> “Mae`r addysgu yn dda”.
> “Mae`r staff yn trin pob plentyn yn deg ac yn dangos parch tuag atynt.”.
> “Mae fy mhlentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff rheolaidd”.
> “Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol”.
> “Rwy`n cael gwybodaeth dda am gynnydd fy mhlentyn”.
> “Rwy`n teimlo`n gyfforddus ynglŷn â mynd at y lleoliad gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem”.
> “Mae fy mhlentyn yn cael ei baratoi/ei pharatoi`n dda ar gyfer symud ymlaen i`r ysgol”.
> “Mae ystod dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau”.
> “Mae`r lleoliad yn cael ei redeg yn dda”.
>
> Nid oedd unrhyw ymateb yn anghytuno neu anghytuno`n gryf â datganiadau`r holiadur.
>
> Roedd trafodaethau â rhieni yn cadarnhau`r canfyddiadau uchod yn ogystal â theimlad cyffredinol o gefnogaeth lawn am y feithrinfa. Nodwyd sawl rhiant y ffordd yr oedd eu plant yn datblygu hunan hyder ac annibynniaeth ers iddynt fynychu`r feithrinfa yn ogystal â datblygiad eu hymddygiad cymdeithasol.

### Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Roedd yr holl blant yn dangos awydd i fynychu gan ddangos diddordeb yn yr ystod eang o weithgareddau a osodwyd ar eu cyfer. Roeddent yn ymdrin ag oedolion yn hyderus ac yn hapus i ofyn cwestiynau ac i drafod. Roedd grwpiau ffrindiau wedi datblygu a ni welwyd unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod yr arolygiad.

Yn ddieithriad roedd y plant yn ymddangos eu bod yn mwynhau eu hun gan wneud defnydd llawn o`r cyfleusterau.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |
| | |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)